

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ37979) yn ôl.*

*Question 12 (OAQ37979 withdrawn).*

### Cynyddu'r Nifer sy'n Pleidleisio Increasing Voter Participation

**Q13 Helen Mary Jones:** Will the First Minister make a statement on any measures that he plans to introduce regarding increasing voter participation? (OAQ37953)

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar unrhyw fesurau y mae'n bwriadu eu cyflwyno i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio? (OAQ37953)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The Assembly Government does not have direct responsibility for elections in Wales. However, it does support the Electoral Commission and the Welsh Local Government Association in their efforts to raise voter awareness and voter participation.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol dros etholiadau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n cefnogi'r Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu hymdrechion i godi ymwybyddiaeth etholwyr ac i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio.

### Mynd i'r Afael â Diweithdra Hirdymor Ymhlith Ieuentid Tackling Long-term Youth Unemployment

**Q14 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on the progress made in tackling long-term youth unemployment in Wales since 1997? (OAQ37972)

**C14 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â diweithdra hirdymor ymhlith ieuentid Cymru er 1997? (OAQ37972)

**The First Minister:** Measures for tackling long-term youth unemployment are delivered through the UK Government's New Deal for Young People. Figures, correct to the end of June 2004, show that over 35,000 young people in Wales have left the New Deal for employment since its introduction in January 1998.

**Y Prif Weinidog:** Mae camau i fynd i'r afael â diweithdra hirdymor ymhlith ieuentid yn cael eu cyflawni drwy'r Fargen Newydd i Bobl Ifanc o eiddo Llywodraeth y DU. Dengys ffigurau, sy'n gywir hyd ddiwedd Mehefin 2004, fod dros 35,000 o bobl ifanc yng Nghymru wedi gadael y Fargen Newydd i weithio ers ei chychwyn yn Ionawr 1998.

### Darpariaeth Canolfannau Plant The Provision of Children's Centres

**Q15 Lynne Neagle:** Will the First Minister make a statement on the provision of children's centres in Wales? (OAQ37973)

**C15 Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarpariaeth canolfannau plant yng Nghymru? (OAQ37973)

**The First Minister:** The Assembly Government is committed to creating at least one integrated children's centre in each local authority area in Wales. We are working in partnership with the big lottery fund, which has made £11 million available towards the capital costs of building these centres.

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i greu o leiaf un ganolfan plant integredig o fewn pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gronfa loteri fawr, sydd wedi sicrhau bod £11 miliwn ar gael tuag at gostau cyfalaf adeiladu'r canolfannau hyn.